**COFNODION CYFARFOD COUNTY COUNCIL A GYNHALIWYD YN NEUADD Y SIR / TRWY ZOOM DYDD GWENER, 22 GORFFENNAF 2022**

YN BRESENNOL:
Y Cynghorydd Sir G W Ratcliffe (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Sir B Baynham, D Bebb, M Beecham, S J Beecham, B Breeze, G Breeze, J Berriman, L Brighouse, A Cartwright, J Charlton, R Church, T Colbert, S Cox, A W Davies, A Davies, B Davies, B Davies, S C Davies, M J Dorrance, D Edwards, J Ewing, L George, J Gibson-Watt, I Harrison, K Healy, H Hulme, P James, A Jones, E A Jones, E Jones, G D Jones, G E Jones, J R Jones, A Kennerley, C Kenyon-Wade, P Lewington, K Lewis, P E Lewis, W Lloyd, I McIntosh, S McNicholas, DW Meredith, C Johnson-Wood, G Mitchell, G Morgan, G Morgan, WD Powell, G Preston, G Pugh, J Pugh, L Rijnenberg, L Roberts, P Roberts, C Robinson, E Roderick, D Selby, D A Thomas, R G Thomas, J Thorp, E Vaughan, C Walsh, J Wilkinson, A Williams a J M Williams

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Sir A Jenner, D H Williams and S L Williams

## 2. COFNODION

Awdurdodwyd y Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Chwefror, a’r cyfarfodydd a ailgynullwyd ar 3 Mawrth, 3 Mawrth, 3 Ebrill a 26 Mai 2022 yn gofnodion cywir.

## 3. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dywedodd y Swyddog Monitro fod gan bob aelod ddiddordeb personol ond answyddogol yn eitem 10 o Gyflogau, Lwfansau a Threuliau Aelodau ond bod eithriad yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau a oedd yn caniatáu i Aelodau siarad a phleidleisio ar yr eitem hon.

Hysbysodd y Swyddog Monitro y Cynghorydd Sir C Walsh nad oedd ganddo fuddiant yn Eitem 15 Hysbysiad o Gynnig - Cau Ysgolion fel mân lywodraethwr yr awdurdod yn Ysgol y Priordy, na chwaith y Cynghorydd Sir I McIntosh gan fod y Cabinet yn gyfrifol am y penderfyniad.

Datganodd y Cynghorydd Sir G Mitchell ddiddordeb personol a rhagfarnus yn eitem 15, Hysbysiad o Gynnig ar Gau Ysgolion.

## 4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Diolchodd y Cadeirydd i'w Is-gadeirydd am ei gynrychioli yn Nhaith Seiclo Merched Cymru a Phentref y Bobl Ifanc yn y Sioe Frenhinol.

Amlinellodd y swyddogaethau yr oedd wedi eu mynychu gan gynnwys Rali Sir Faesyfed a gorymdaith Gurkha. Roedd wedi cyfarfod â'r Prif Weinidog yn y Sioe Frenhinol ac wedi cynnal cyfarfod croeso yn y Sioe. Roedd wedi cyflwyno gwobr Barcud Aur i Joyce Williams ar achlysur ei phen-blwydd yn 100 oed, Barcud Arian i Rachel Palmer am ei gwaith amgylcheddol ac i Karen a Danny Sherwood a oedd wedi maethu plant am dros 25 mlynedd. Roedd hefyd wedi mynychu digwyddiad i ddiolch i wirfoddolwyr oedd yn rhan o'r rhaglen frechu ac olrhain.

| 5. | **CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD** |
|---|---|

Diolchodd yr Arweinydd i staff oedd wedi bod yn rhan o'r broses o sefydlu a chefnogi presenoldeb y Cyngor yn y Sioe Frenhinol. Roedd y Cabinet wedi lansio ei strategaeth ar gyfer y weinyddiaeth newydd a diwygiad i'r strategaeth trawsnewid ysgolion yn y Sioe. Roedd yn falch iawn iddo nodi seremoni torri'r dywarchen ar gyfer yr ysgol newydd yn Ysgol Cedewain. Byddai Ysgol Arbennig Brynllawarch hefyd yn cael ei hailddatblygu. Dywedodd ymhellach y byddai 32 o fflatiau un-ystafell-wely sy'n defnyddio ynni'n effeithlon yn cael eu datblygu ar safle Robert Owen House ac bod datblygiad tai cymdeithasol yn Sarn wedi derbyn canmoliaeth uchel yng ngwobrau Rhagoriaeth Tai yng Nghymru.

Roedd yn falch o ddweud bod Cyngor Sir Powys wedi ymuno â’r rhwydwaith Cynghorau Balch a wnaeth ymrwymo'r Cyngor i gydnabod hawliau LGBTQ+ yn llawn, y cyngor gwledig cyntaf yng Nghymru i wneud hynny. Dywedodd fod y Cabinet yn benderfynol o wella'r ffordd y byddai’n ymgynghori â'r cyhoedd. Dylid ymgynghori â busnesau ar arolwg cyflogaeth a sgiliau ac ar godi tâl cerbydau trydan. Yn olaf, roedd yn falch o nodi bod y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, er iddo gydnabod bod mwy i'w wneud a bod y Cabinet yn dymuno bod yn fwy uchelgeisiol yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol.

| 6. | **BRIFF Y PRIF WEITHREDWR** |
|---|---|

Dywedodd y Prif Weithredwr bod Arolygiaeth Gofal Cymru wedi cyhoeddi llythyr a oedd yn gadarnhaol i raddau helaeth, yn dilyn ymweliad arolygu ym mis Mai. Amlinellodd drefniadau dros dro yn dilyn ymadawiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a chynghorodd y byddai’r trefniadau hyn yn cael eu hadolygu ar ôl chwe mis. Diolchodd i drigolion Powys oedd wedi cynnig cartrefi ffoaduriaid Wcráin. Dywedodd ei bod wedi ymweld â staff y Cyngor gan ddarparu cymorth yn y Sioe Frenhinol gan ddiolch i’r holl staff fu'n rhan o'r ymgyrch. Yn olaf, roedd hi wedi mynychu Eisteddfod yr Urdd yn Ninbych ac fe wnaeth hi longyfarch yr holl gyfranogwyr o Bowys. Roedd Powys yn edrych ymlaen at groesawu Eisteddfod yr Urdd i Fachynlleth ym mis Mai 2024.

Fe wnaeth y Cynghorydd Sir Aled Davies groesawu llythyr AGC a diolchodd i'r staff a'r cyn ddeiliad portffolio am eu gwaith o wella'r safonau yn y gwasanaeth.

| 7. | **ADRODDIAD HUNAN-ASESU BLYNYDDOL** |
|---|---|

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i’r adroddiad Hunanasesu Blynyddol cyntaf. Mae'r adroddiad yn ymgorffori monitro blynyddol perfformiad y Cyngor yn erbyn ei

Gynllun Gwella Corfforaethol a'i Amcanion Cydraddoldeb Strategol a rhoddodd olwg gyfannol ar y sefydliad sy'n gweithio tuag at wireddu ei amcanion llesiant. Byddai'r adroddiad yn helpu i lywio'r Cabinet ar sut y gwnaeth ddarparu gwasanaethau ac yn helpu'r pwyllgor Craffu i ganolbwyntio ar y meysydd sydd i'w hadolygu ymhellach. Diolchodd yr Arweinydd i'r swyddogion ac i'r aelodau fu'n rhan o'i gynhyrchu. Mewn ymateb i gwestiwn aelod, cadarnhawyd y byddai fersiwn dwyieithog hawdd ei ddarllen yn cael ei lunio. Cafodd ei gynnig gan y Cynghorydd Sir Michael Williams a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan, ac o 63 pleidlais i 0

**PENDERFYNWYD**

1. **Bod y Cyngor o'r farn bod yr adroddiad wedi'i gyflwyno, a'i fod yn fodlon bod y meini prawf canlynol wedi'u bodloni:**
    - **Bod yr Adroddiad Hunanasesu yn cyflawni rhwymedigaethau'r Awdurdod o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.**
    - **Bod y casgliadau a gyflwynwyd yn yr Adroddiad Hunanasesu yn cael eu hystyried yn gorfforaethol i fod yn werthusiad teg a chywir o berfformiad yr Awdurdod yn 2021/22.**
    - **Bod yr adroddiad hunanasesu yn cynnig darlun agored, cytbwys, a realistig o gyflawniadau a heriau'r Cyngor dros y flwyddyn flaenorol.**

2. **Bod y ddogfen yn glir ac yn darparu'r lefel gywir o wybodaeth i'w gwneud yn ystyrlon ac yn berthnasol i bob cynulleidfa.**

Gadawodd y Cynghorydd Sir William Powell y cyfarfod am 11.20.

| 8. | ADRODDIAD SEFYDLOGRWYDD Y FARCHNAD AR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2022 |
|---|---|

Ystyriodd y Cyngor adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2022. Nododd yr adroddiad heriau yn y farchnad a chynigion i gamau gweithredu gael eu cymryd yn y blynyddoedd i ddod. Byddai'r adroddiad yn helpu'r Cyngor a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i ddeall y farchnad gofal cymdeithasol Powys yn well ac i gynllunio ar gyfer darpariaeth i'r dyfodol.

Prif themâu'r adroddiad oedd pwysau ar gapasiti'r gweithlu a oedd wedi gwaethygu oherwydd y galw cynyddol am wasanaethau yn ystod y pandemig, effaith newid demograffeg ac effaith gronnus cyfyngiadau parhaus ar y gyllideb.

Pwysleisiodd Aelod Cabinet Cenedlaethau'r Dyfodol bwysigrwydd darparu gwasanaethau yn y Gymraeg, ac fe wnaeth hi gydnabod y rôl hanfodol oedd yn cael ei chwarae gan ofalwyr a'r trydydd sector. Fe amlinellodd y swyddogion y gefnogaeth a roddwyd i ofalwyr.

Byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru. Byddai'n cael ei ddefnyddio i

gynllunio darpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol drwy’r cynlluniau ardal a’r strategaethau comisiynu. Dywedodd yr Arweinydd mai ei flaenoriaeth oedd dilyn yr agenda integreiddio gyda'r Bwrdd Iechyd yn fuan.

Cafodd yr adroddiad ei gynnig gan y Cynghorydd Sir Sian Cox ac eiliwyd ef gan y Cynghorydd Sir Edwin Roderick, ac yn unfrydol

**PENDERFYNWYD nodi’r adroddiad.**

| 9. | TROSGLWYDDIADAU REFENIW |
|---|---|

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i ddau drosglwyddiad yn y Gronfa Wrth Gefn Amnewid Cerbydau:

- Nododd y Gwasanaethau Rheoli Fflyd danwariant o £1,054,400 yn erbyn tâl dibrisiant Gofynnodd y gwasanaeth i ddefnyddio'r tanwariant hwn gyda chyfraniad ychwanegol at y gronfa gyfnewid cerbydau er mwyn cynorthwyo i reoli'r pwysau cynyddol ar y gronfa drafnidiaeth sy'n deillio o chwyddiant sylweddol ar gostau prynu. Lle bo modd, byddai’r cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i brynu cerbydau "gwyrdd”

- Roedd y Gwasanaethau Rheoli Fflyd wedi creu £226,086 o incwm o werthu cerbydau/offer, ac wedi gofyn am drosglwyddo hyn i gronfa wrth gefn amnewid cerbydau er mwyn ei ddefnyddio i ariannu prynu cerbydau a/neu offer yn y dyfodol. Lle bo modd, byddai’r cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i brynu cerbydau "gwyrdd”

Holodd Aelodau am bwysau staffio yng ngwasanaeth HTR oedd wedi arwain at rywfaint o oedi wrth gasglu gwastraff Fe wnaeth y Cyfarwyddwr Gweithredol yr Economi a'r Amgylchedd gynghori bod y gwasanaeth yn ceisio rheoli hyn gyda staff asiantaeth a thrwy recriwtio staff Gofynnodd yr Aelod Cabinet Powys fwy gwyrdd i Aelodau gysylltu â hi os methwyd casgliadau

Cafodd ei gynnig gan y Cynghorydd Sir Michael Williams a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Gareth E Jones, ac yn unfrydol

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r taliadau a nodir yn yr adroddiad**

| 10. | LWFANSAU A THREULIAU AELODAU 2021-22 |
|---|---|

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yr aelodau fod ganddynt fuddiant yn yr eitem hon ond bod goddefeb yn bodoli a oedd yn caniatáu iddynt siarad a phleidleisio arno.

Derbyniodd y Cyngor yr adroddiad a oedd yn nodi'r symiau a dalwyd ac a ad-dalwyd i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig yn ystod blwyddyn dreth 2021-22, mewn cyflogau a threuliau.

Cafodd ei gynnig gan y Cynghorydd Sir Les George a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Michael Williams, ac yn unfrydol

**PENDERFYNWYD nodi’r adroddiad.**

| 11. | AELODAETH O’R PWYLLGOR |
|---|---|

Nododd y Cyngor benodiadau a wnaed i bwyllgorau gan grwpiau gwleidyddol ers y cyfarfod diwethaf. Fe wnaeth Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ein hysbysu o un camgymeriad yn yr adroddiad, ar dudalen 383 o'r pecyn, gan nodi nad oedd swydd wag Geidwadol ar y Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003. Dywedodd ymhellach fod y Cynghorydd Sir Corrina Kenyon-Wade wedi ei phenodi i'r Pwyllgor Craffu Iechyd a Gofal gan y Democratiaid Rhyddfrydol. Fe fyddai'n edrych eto ar y niferoedd ar y Pwyllgor Craffu Iechyd a Gofal gan nad oedd grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol yn credu bod ganddyn nhw le arall i'w lenwi. Roedd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd wedi'u hawdurdodi gan arweinwyr grŵp i fynd at aelodau nad ydynt yn cydweithio â nhw i lenwi swyddi gwag ar bwyllgorau.

Cafodd ei gynnig gan y Cynghorydd Sir Les George a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Michael Williams, ac yn unfrydol

**PENDERFYNWYD nodi penodiad aelodau i bwyllgorau.**

| 12. | PENODI AELOD ANNIBYNNOL (LLEYG) AR Y PWYLLGOR SAFONAU |
|---|---|

Ystyriodd y Cyngor adroddiad ar benodi aelod annibynnol (lleyg) o'r Pwyllgor Safonau. Yn dilyn cyfweliad gan banel o apwyntiadau, roedd y panel wedi argymell penodi Mr Jonathan Goolden.

Fe'i cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Les George a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan, ac yn unfrydol

**PENDERFYNWYD penodi Mr Jonathan Goolden yn Aelod Annibynnol (Lleyg) am gyfnod o 6 mlynedd o 22 Gorffennaf 2022.**

| 13. | PENODI CYNGHORWYR I GYRFF ALLANOL |
|---|---|

<u>Ymddiriedolaeth Pritchard</u>

Cynigiwyd ef gan y Cynghorydd Sir Gareth E Jones a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Michael Williams, ac yn unfrydol

**PENDERFYNWYD y byddai’r Cynghorydd Sir Jeremy Pugh yn cael ei benodi i Ymddiriedolaeth Pritchard**

<u>Ymddiriedolaeth Evans</u>

Cafodd ei gynnig gan y Cynghorydd Sir Gareth E Jones a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Claire Johnson-Wood, ac yn unfrydol

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Sir Jeremy Pugh i Ymddiriedolaeth Pritchard**

Cymdeithas Lluoedd Wrth Gefn a Chadlanciau Cymru

Cafodd ei gynnig gan y Cynghorydd Sir Les George a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Michael Williams, ac yn unfrydol

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe i Gymdeithas Lluoedd Wrth Gefn a Chadlanciau Cymru**

Bwrdd Canolfan Celfyddydau Wyeside

Cynigiwyd y Cynghorydd Sir Corrina Kenyon-Wade gan y Cynghorydd Sir Richard Church ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Sir Les George, a chynigiwyd y Cynghorydd Sir Little Brighouse gan y Cynghorydd Sir Pete Roberts a'i heilio gan y Cynghorydd Sir Josie Ewing, ac yn unfrydol

**PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd Sir Corrina Kenyon-Wade a'r Cynghorydd Sir Little Brighouse i Fwrdd Canolfan Celfyddydau Wyeside**

| 14. | CAIS AM ETHOLIAD GAN GYNGOR TREF Y DRENEWYDD |
|---|---|

Fe wnaeth y cyngor ystyried cais gan Gyngor Tref Y Drenewydd bod etholiad yn cael ei gynnal am ddwy swydd wag yn ward De'r cyngor tref. Byddai hyn yn galluogi'r Cyngor Tref i gyfethol pobl i bedair sedd wag arall.

Daeth y cynnig gan y Cynghorydd Sir Michael Williams a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan ac o 59 pleidlais i 0,

**PENDERFYNWYD gwneud Gorchymyn Etholiad Cyngor Tref y Drenewydd (Ward Ddeheuol) 2022 fel y manylwyd yn Atodiad A yr adroddiad.**

| 15. | HYSBYSIAD O GYNNIG - CAU YSGOLION |
|---|---|

Datganodd y Cynghorydd Sir Gary Mitchell ddiddordeb personol a rhagfarnus yn yr eitem hon a gadawodd y cyfarfod tra'r oedd yn cael ei ystyried.

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i’r cynnig canlynol a gynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Iain McIntosh ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Karl Lewis:

“Dechreuodd y rhaglen bresennol ar gau ysgolion Cymru pan oedd gweinyddiaeth flaenorol Llywodraeth Cymru dan Lafur a’r Democratiaid Rhyddfrydol mewn grym, gyda Kirsty Williams AS yn Weinidog Addysg. Ers hynny, mae awdurdodau lleol ledled Cymru wedi gwneud penderfyniadau i gau

ysgolion cynradd. Mae'r tair ysgol ganlynol bellach yn wynebu gorfod cau ym Mhowys:

Ysgol Gynradd Gymunedol Cradog
Ysgol Gynradd Gymunedol Llanfihangel Rhydieithon
Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr

Yn ystod y broses o gau'r ysgolion, aeth y cynigion i gau'r tair ysgol uchod drwy'r pwyllgor Craffu Dysgu a Sgiliau, dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Pete Roberts o'r Democratiaid Rhyddfrydol.

Ar 8 Rhagfyr cyfarfu'r grŵp craffu Dysgu a Sgiliau i ystyried cau Ysgol Gynradd Gymunedol Cradog; 2021-12-08 Argymhellion Craffu i'r Cabinet - Cradog a Mount Street v2.pdf (moderngov.co.uk). Ni wnaeth y cadeirydd unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig a chyflwynodd arsylwadau gyda phedwar argymhelliad ychwanegol.

Ar 22 Medi bu'r grŵp craffu Dysgu a Sgiliau yn cwrdd i ystyried cau Ysgol Gynradd Gymunedol Llanfihangel Rhydithon; 2021-09-22 Argymhellion Craffu i'r Cabinet - Llanfihangel Rhydithon v2.pdf (moderngov.co.uk). Ni wnaeth y cadeirydd unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig a chyflwynodd arsylwadau yn cynnwys y sylw "Roedd y pwyllgor yn fodlon bod modd cyfiawnhau mwyafrif y dadleuon a nodwyd yn y ddogfen ar bob sail."

Ar 4 Medi bu'r grŵp craffu Dysgu a Sgiliau yn cwrdd i ystyried cau Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr; 2021-11-04 Argymhellion Craffu i'r Cabinet - Llanbedr v2.pdf (moderngov.co.uk). Ni wnaeth y cadeirydd unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig a chyflwynodd arsylwadau yn cynnwys y sylw "Doedd dim argymhellion gan y grwp craffu i'r cabinet."

Er gwaethaf boddhad ymddangosiadol cadeirydd y pwyllgor Craffu Dysgu a Sgiliau gyda'r tri chynnig i gau ysgolion cynradd, fe ymgyrchodd ac ymrwymodd ymgeiswyr y Democratiaid Rhyddfrydol Cymreig, sef gweinyddiaeth newydd Cyngor Sir Powys, i wrthdroi cau ysgolion cynradd ym Mhowys yn ystod ymgyrch etholiadol y Cyngor Sir yn ddiweddar:

Ar 29 Ionawr 2022, 13 Chwefror 2022 a 14 Mai 2022, ymunodd nifer o ymgeiswyr, Cynghorwyr ac aelodau Cabinet presennol y Democratiaid Rhyddfrydol â thrigolion Powys ar deithiau protest a diwrnodau ymgyrchu i ymladd yn erbyn cau'r tair ysgol uchod. Ar 23 Ionawr 2022, ymunodd sawl ymgeisydd Llafur, cynghorwyr ac aelod o'r Cabinet presennol â thrigolion Powys ar daith gerdded mewn protest i ymladd yn erbyn cau Ysgol Gynradd Cradog, Ysgol Fabanod Mount Street ac Ysgol Gynradd Mount Street Yn ystod cyfnod ymgyrchu etholiadol y Cyngor Sir eleni, rhoddodd ymgeiswyr y Democratiaid Rhyddfrydol a Llafur wybod i drigolion Powys, trwy ddeunyddiau ymgyrchu, y cyfryngau cymdeithasol, a sgyrsiau ar stepen y drws y byddent yn atal cau'r tair ysgol uchod pe baent yn cael eu hethol, ac yn rheoli'r awdurdod hwn. Ers ymgymryd â rheolaeth o'r awdurdod hwn fis Mai, mae'r weinyddiaeth newydd wedi methu â chyflawni eu hymrwymiad i drigolion Powys. Yn hytrach, mae'r Arweinydd wedi cyhoeddi y bydd cau ysgolion Llanfihangel Rhydithon a Llanbedr yn cael eu gohirio am un flwyddyn galendr, gan gynnig gobaith ffug i rieni, athrawon, a phlant, wrth i swyddogion y cyngor gadarnhau y bydd y ddwy ysgol yn dal yn cau.

Bellach mae'r Arweinydd ac aelodau newydd y Cabinet wedi datgelu cynlluniau i fwrw ymlaen â'r cynnig i gau Ysgol CP Cradog, gan fynd yn erbyn ymrwymiadau a wnaed i bob preswylydd, athro, rhiant a phlentyn ym Mhowys.

Mae'r cyngor yma felly yn galw ar weinyddiaeth newydd Cyngor Sir Powys i:

Gadw Ysgol CP Cradog ar agor.
Peidio â chynnig cau Ysgol CP Cradog eto yn ystod y tymor pum mlynedd nesaf.”

Dadl y Cynghorydd Sir McIntosh oedd y dylai'r Cyngor, yn hytrach na chau ysgolion bach gwledig, fod yn dal Llywodraeth Cymru i gyfrif am ei osod yn y sefyllfa yma. Dywedodd nad oedd tystiolaeth bod ysgolion mwy yn well ar gyfer addysg plant. Roedd yn cwestiynu’r costau a ddarparwyd gan y byddai ysgol Cradog yno am bedair blynedd arall p’un a fyddai'r cynnig yn cael ei basio ai peidio, a byddai angen gwario arian ar ystafelloedd dosbarth symudol newydd.

Roedd y Cynghorydd Sir Pete Roberts yn herio’r honiad mai ef yn bersonol oedd yn gyfrifol am sylwadau'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Sgiliau yn y rhagymadrodd i'r cynnig, gan mai ei rôl ef oedd adrodd ar sylwadau'r pwyllgor pan oedd yn Gadeirydd y Pwyllgor hwnnw. Dadleuodd ei fod yn gamarweiniol i beidio â chynnwys y cofnod llawn a oedd yn ymwneud ag Ysgol CP Llanfihangel Rhydieithon yn y rhagair, sef "Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod modd cyfiawnhau'r rhan fwyaf o'r dadleuon a nodwyd yn y ddogfen ar bob sail, ac eithrio'r rheiny mewn perthynas â ffederasiwn a'r Gymraeg." Dadleuodd, pe bai'r cynnig yn cael ei basio, na ellid ffederaleiddio na rhoi'r ysgol mewn clwstwr waeth beth fo'r amgylchiadau. Dadleuodd ei bod yn hanfodol barnu pob cynnig yn ôl ei deilyngdod

Collwyd y cynnig o 14 pleidlais i 41, gyda 4 yn ymatal.

Dychwelodd y Cynghorydd Sir Gary Mitchell i'r cyfarfod.

| 16. | HYSBYSIAD O GYNNIG - CYNLLUN RHYDDHAD TRETH TANWYDD GWLEDIG |
|---|---|

Trafododd y Cyngor y cynnig canlynol a gafodd ei gynnig gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan a'i eilio gan Y Cynghorydd Sir Bryn Davies.

“Mae seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus wael yn anffodus yn golygu nad oes gan lawer o drigolion Powys fawr o ddewis wrth fynd ar siwrneiau hanfodol, ac maen nhw'n ddibynnol ar ddefnyddio'r car. Cymru sy'n parhau i fod â'r gyfran uchaf o bobl yn teithio i'r gwaith mewn car (80%) o'i gymharu â rhanbarthau Lloegr neu'r Alban.
Ar hyn o bryd ’dyw ardaloedd gwledig Cymru ddim yn cael cefnogaeth er iddyn nhw fodloni bron pob un o'r meini prawf. Rhaid ad-drefnu'r cynllun er mwyn ystyried mynediad at rwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus leol, yn ogystal â gwarant y bydd ardaloedd yng Nghymru’n cael eu cynnwys o fewn y cynllun. O ystyried hyn, mae’r Cyngor -

- yn cefnogi galwadau i gynnwys y Gymru wledig yn y cynllun Rhyddhad Dyletswydd Tanwydd Gwledig;
- yn pwyso ar Drysorlys EM i ddiweddaru meini prawf y cynllun
- ac yn gofyn i'n ASau ym Mhowys gydweithio gydag ASau eraill o'r gwrthbleidiau yn y Canolbarth gan sicrhau llais unedig wrth bledio'r achos yn San Steffan."

Wrth gynnig y cynnig hwn, fe wnaeth y Cynghorydd Vaughan nodi, er mai Cymru yw'r genedl sydd fwyaf dibynnol ar geir yn y DU oherwydd buddsoddiad gwael mewn trafnidiaeth gyhoeddus, nad oes unrhyw ran o'r wlad yn gymwys ar gyfer y cynllun.

O 55 pleidlais i 2, gydag 1 yn ymatal,

**PENDERFYNWYD bod y Cyngor**
**- yn cefnogi galwadau i gynnwys y Gymru wledig yn y cynllun Rhyddhad Dyletswydd Tanwydd Gwledig;**
**- yn pwyso ar Drysorlys EM i ddiweddaru meini prawf y cynllun**
**- ac yn gofyn i ASau ym Mhowys weithio gydag ASau eraill o'r gwrthbleidiau yn y Canolbarth gan sicrhau llais unedig wrth bwyso ar yr achos yn San Steffan.**

| 17. | HYSBYSIAD O GYNNIG - DYDD GWYL DEWI |
|---|---|

Trafododd y Cyngor y cynnig canlynol a gafodd ei gynnig gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Gary Mitchell.

1. Bod y Cyngor yn gofyn i'r Cabinet gydnabod Dydd Gŵyl Dewi yn swyddogol trwy roi diwrnod o wyliau i'w weithlu er mwyn dathlu Dydd ein Nawddsant ar 1 Mawrth 2023 a phob blwyddyn wedi hynny.

2. Bod y Cyngor yn galw ar Lywodraeth San Steffan i ddatganoli i Lywodraeth Cymru y pŵer i greu gwyliau banc i Gymru (drwy'r Ddeddf Bancio a Delio Ariannol 1971) - yn yr un modd ag sy'n digwydd eisoes yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Dadl y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan oedd bod gan Gymru lai o wyliau banc na gweddill Ewrop a bod gwyl banc ychwanegol yn dod â manteision economaidd.

Cafodd gwelliant ei gynnig gan y Cynghorydd Sir David Thomas a'i eilio gan y Cynghorydd Sir Susan McNicholas i ddileu rhan 1 o'r cynnig gan ddadlau y byddai'r Cyngor i roi diwrnod o wyliau i staff ar 1 Mawrth 2023 yn golygu costau ychwanegol sylweddol. Pleidleisiodd y Cyngor ar y gwelliant ac fe gafodd ei basio o 43 pleidlais i 10, gydag 1 yn ymatal, a daeth yn welliant sylweddol. Yna fe wnaeth y Cyngor bleidleisio ar y gwelliant sylweddol, ac o 44 pleidlais i 10

**PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn galw ar Lywodraeth San Steffan i ddatganoli i Lywodraeth Cymru y pŵer i greu gwyliau banc i Gymru (drwy'r Ddeddf Bancio a Delio Ariannol 1971) -**

**yn yr un modd ag sy'n digwydd eisoes yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon.**

| | |
|---|---|
| **18.** | **CWESTIYNAU I AELOD PORTFFOLIO’R CABINET Â CHYFRIFOLDEB AM Y GYMRAEG GAN Y CYNGHORYDD SIR ELWYN VAUGHAN** |

Mae Cyfrifiad 2011 yn dangos bod tua 19% o boblogaeth Powys yn gwbl ddwyieithog, h.y. yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Eto, ym mis Mawrth 2022, adolygodd y Comisiynydd Iaith arolwg cwsmer 4-wythnos oedd yn dangos, o blith 17 galwad a wnaed i Bowys dim ond 1 a oedd yn nodi bod gwasanaeth Cymraeg ar gael, ac o'r 15 galwad a atebwyd gan staff, dim ond 3 oedd yn gallu ymateb yn llawn i anghenion y galwr yn Gymraeg.

Yn ogystal â hyn, mae data cyflogaeth yn dangos mai dim ond 7.59% o staff Powys sy'n gwbl ddwyieithog yn 2021-22, ac mae’r gyfran yn yr adran tai a datblygu cymunedol cyn lleied â 5.04%

Eto, o fis Ebrill 2021 i fis Mawrth 2022 o'r 1,271 o swyddi a gafodd eu hysbysebu, dim ond 64, neu 5%, oedd yn dangos yr angen am ddwyieithrwydd llawn.

O ystyried y ffaith nad yw'r awdurdod yn adlewyrchu ein cymdeithas, heb sôn am gyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol, ac felly bod angen ailwampio’r sefyllfa, beth yw eich cynigion i gywiro'r anghydbwysedd hwn?

**Ymateb**
Mae'r gwasanaeth Cynllunio’r Gweithlu a Threfniadaeth yn cynnal adolygiad recriwtio trylwyr, a bydd y Gymraeg yn cael ei hystyried fel rhan o hyn. Mae gan y Cyngor arferion da ar waith yn barod e.e., hysbysebion swyddi dwyieithog a disgrifiadau swydd, a'r cyfle i wneud cais am unrhyw rôl yn y Gymraeg. Rydym yn cynnal prosesau dethol yn y Gymraeg ac am rolau lle mae'r Gymraeg yn hanfodol rydym yn cyhoeddi'r hysbysebion hyn yn y Gymraeg yn unig.

Fel rhan o'r adolygiad byddwn yn diweddaru data ar sgiliau Cymraeg staff er mwyn sicrhau ei fod yn gywir, ac yn sicrhau bod rheolwyr yn ystyried y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar gyfer swydd wag benodol yn ofalus fel rhan o'r broses recriwtio. Mae angen i'r Cyngor fod yn ymwybodol o'r heriau recriwtio rydyn ni ac awdurdodau lleol eraill yn eu hwynebu mewn amrywiaeth o sectorau. Mae'n bwysig gwella sgiliau Cymraeg ein gweithlu, a'n bod yn parhau i ddarparu cyfleoedd i dalent yn y dyfodol wrth ymgeisio am ein swyddi gwag. Rydym yn cydnabod hefyd ein bod wedi profi anawsterau sylweddol wrth recriwtio i swyddi lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol, gan fynd allan i recriwtio hyd at 4 gwaith ambell waith i sicrhau recriwtio, er bod Ffyrdd Newydd o Weithio wedi lliniaru'r heriau mewn rhai meysydd sy'n ymwneud â hyn drwy alluogi rhai categorïau o weithwyr i weithio gartref.

Rydym yn deall pwysigrwydd sgiliau iaith Gymraeg ledled Powys ac rydym wedi ymrwymo i adlewyrchu ein cymunedau a phobl Powys. Fel rhan o'r adolygiad, byddwn ni'n edrych ar sut y gallwn ni fynd ati i annog ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg. Byddwn ni'n ystyried sut y gall rheolwyr adnabod rolau na fyddant yn

gofyn am sgiliau Cymraeg ar y pwynt recriwtio o bosib, ond lle efallai bydd gofyn iddyn nhw ddysgu rhywfaint o Gymraeg penodol yn y gweithle fel rhan o'u rôl. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws i drigolion ddefnyddio'r Gymraeg wrth ryngweithio â ni.
Rydym yn hysbysebu cyfleoedd hyfforddi'r Gymraeg yn rhagweithiol trwy Brifysgol Aberystwyth ac yn annog staff i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd, er enghraifft trwy ddangos eu bod yn siarad Cymraeg am eu llofnod e-bost ar eu pasys adeilad a'u laniard. Byddwn ni'n cyflwyno boreau coffi rhithwir anffurfiol a sesiynau amser cinio lle gall staff ymarfer eu Cymraeg.

Rydym wedi siarad â Chyngor Sir Gâr am hyn i ddysgu o'u harfer gorau i sicrhau bod sesiynau'n canolbwyntio a datblygu staff sgiliau Cymraeg ymarferol y gall staff eu defnyddio wrth ddarparu gwasanaethau.

Yn y tymor hirach, bydd ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn ein cynorthwyo i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd rhwng canran y siaradwyr Cymraeg yn y sir a'r rhai sy'n gweithio i ni.

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Vaughan ynglŷn â gwneud cynnydd gyda'r grŵp trawsbleidiol, cadarnhaodd yr Aelod Cabinet y byddai'n gweithio gydag ef ac aelodau eraill i symud pethau ymlaen.

Y Cynghorydd Sir **G W Ratcliffe (Cadeirydd)**